O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 3218 (Cy. 320)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffyrdd yr A48 a'r A483 a Thraffordd yr M4 (Cylchfan Pont Abraham a'r ffyrdd sy'n arwain ati, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) (Rhif 2) 2012

Gwnaed *27 Rhagfyr 2012*

Yn dod i rym *7 Ionawr 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Llundain – Abergwaun (yr A48), Cefnffordd Abertawe – Manceinion (yr A483) (y cyfeirir atynt yma wedi hyn fel "y cefnffyrdd") a Thraffordd Llundain – De Cymru (yr M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y draffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu neu gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd a'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 7 Ionawr 2013 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A48 a'r A483 a Thraffordd yr M4 (Cylchfan Pont Abraham a'r ffyrdd sy'n arwain ati, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) (Rhif 2) 2012.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 7 Ionawr 2013 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr “y darnau o'r cefnffyrdd” *(“the lengths of the trunk roads”)* yw'r darnau hynny o gefnffyrdd yr A48 a'r A483 wrth Gylchfan Pont Abraham a’r rhai sy'n arwain ati yn Sir Gaerfyrddin a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn;

ystyr “y darn o'r draffordd” *(“the length of the motorway”)* yw'r darn o draffordd yr M4 sy'n arwain at Gylchfan Pont Abraham yn Sir Gaerfyrddin a bennir yn Atodlen 1.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu at Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Cyfyngiadau a Gwaharddiad

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 10, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a'r draffordd a bennir yn Atodlen 1.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 10, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd a'r draffordd a bennir yn Atodlenni 1 a 2.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 10, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd a'r draffordd a bennir yn Atodlenni 1 a 2.

6. Yn ddarostyngedig ddarpariaethau erthygl 10, ni chaiff neb yn ystod cyfnod y gwaith ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o’r cefnffyrdd a'r draffordd a bennir yn Atodlenni 1 a 2 yn ystod yr adegau hynny y mae'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 5 ar waith.

7. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 10, bydd y llain galed sy’n gyfagos i’r cerbytffyrdd tua’r gorllewin a thua’r dwyrain yn y darn o’r draffordd a bennir yn Atodlen 1 ar gael i’w defnyddio fel lôn draffig.

Ataliadau

8. Mae rheoliad 5 o Reoliadau Traffig Traffyrdd (Cymru a Lloegr) 1982**(3)** a darpariaethau rheoliad 9 o’r Rheoliadau hynny sy’n ymwneud â gyrru cerbydau yn cael eu hatal i’r graddau y maent yn gymwys i’r llain galed sy’n gyfagos i’r cerbytffyrdd tua’r gorllewin a thua’r dwyrain yn y darn o’r draffordd a